

Ceidwaid Moch

Anwes



Ydych chi wedi cofrestru?

- Os ydych yn cadw moch am y tro cyntaf, mae'n rhaid i chi gysylltu â'r corff Taliadau Gwledig perthnasol i'w cofrestru:
 - Yr Asiantaeth Taliadau Gwledig (RPA)** – Lloegr
 - Yr Is-adran Taliadau Gwledig ac Arolygiadau (RPDI)** – yr Alban
 - Taliadau Gwledig Cymru** – Cymru
- Bydd eich corff Taliadau Gwledig perthnasol sy'n nodi ble mae eich moch yn cael eu cadw, yn rhoi rhif **Daliad Plwyf Sir (Rhif y Daliad)** i chi.
- Mae'n rhaid i chi hysbysu'r **Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)** pan fyddwch yn dechrau cadw moch mewn lleoliad am y tro cyntaf – bydd yn rhoi nod cenfaint sy'n fodd i adnabod eich anifeiliaid.
- Mae'n rhaid i chi hefyd hysbysu **APHA** os bydd eich amgylchiadau'n newid, e.e. rydych yn rhoi'r gorau i gadw moch anwes yn eich lleoliad cofrestredig.



Ydych chi'n mynd â'ch mochyn am dro?

- Os ydych am fynd â'ch mochyn anwes am dro, mae'n rhaid i chi gael trwydded gerdded gan **APHA**, ac mae'n rhaid i'ch llwybr gael ei gymeradwyo ymlaen llaw.
- Efallai na fydd **APHA** yn cymeradwyo'ch llwybr os ystyrir bod risg o ledaenu clefyd y gellir ei osgoi, er enghraifft, os bydd yn mynd heibio i'r canlynol:

- ✗ Marchnad da byw
- ✗ Fferm moch
- ✗ Siop gludfwyd

Cofiwch fynd â'ch trwydded gyda chi bob tro yr ewch am dro, a'i hadnewyddu bob blwyddyn.

Pam mae'r neges hon yn bwysig?

- Rydym am sicrhau bod ceidwaid moch anwes yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a sut y gall eu gweithredoedd effeithio ar y gallu i **olrhain** clefydau yn y DU.
- Mae hyn yn golygu y gall **APHA**, os caiff wybodaeth gywir am geidwaid, gymryd camau gweithredu mwy effeithiol i leihau neu atal achosion o glefydau fel **Clwy'r Traed a'r Genau** a **Chlwy Affricanaidd y moch** a'u lledaenu.

A chofiwch....

Os byddwch yn cadw moch anwes, mae'n rhaid i chi ddilyn yr un rheolau â ffermwyr moch.

Am ragor o wybodaeth, gan gynnwys beth gallwch neu na allwch ei fwydo i'ch moch, ewch i **Cadw mochyn anwes neu 'microfochyn'** (<https://www.gov.uk/guidance/keeping-a-pet-pig-or-micropig>)